




Cyngor Abertawe

Gwerthusiad o Bysgodfeydd Bae Abertawe

Grŵp Gweithredu Lleol

Adroddiad Sylfaenol – Terfynol

Mai 2020



Meddwl Arloesol - Atebion Cynaliadwy

Gwerthusiad o Bysgodfeydd Bae Abertawe L Grŵp Gweithredu Lleol




Adroddiad Sylfaenol – Terfynol

Mai 2020



Gwybodaeth Dogfen

Hanes y Ddogfen ac Awdurdodiad		
Teitl	Gwerthusiad o Bysgodfeydd Bae Abertawe L Grŵp Gweithredu Lleol	
	Adroddiad Sylfaenol – Terfynol	
Comisiynwyd gan	Cyngor Abertawe	
Dyddiad cyhoeddi	Mai 2020	
Dogfen gyf	R.3378	
Prosiect rhif	R/4799/1	
Dyddiad	Fersiwn	Manylion Adolygu
06/03/2020	1	Wedi'i gyhoeddi fel fersiwn weithredol ar gyfer adolygiad cleient
22/04/2020	2	Wedi'i gyhoeddi i'r cleient ei gymeradwyo
12/05/2020	3	Mater at ddefnydd cleient

Paratowyd (PM)	Cymeradwy (QM)	Awdurdodedig (PD)
C. A. Roberts	S. C. Hull	S. F. Walmsley
		

Dyfynnu a Awgrymir

ABPMmer, (2020). Gwerthusiad o Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Abertawe, Adroddiad Sylfaenol – Terfynol, Adroddiad ABPmer Rhif R.3378. Adroddiad a gynhyrchwyd gan ABPmer ar gyfer Cyngor Abertawe, Mai 2020

Awduron sy'n Cyfrannu

Caroline Roberts; Suzannah Walmsley

Hysbysiad

Mae ABP Marine Environmental Research Ltd ("ABPmer") wedi paratoi'r ddogfen hon yn unol â chyfarwyddiadau'r cleient, at ddiben a defnydd y cleient yn unig. Ni chaiff unrhyw drydydd parti ddibynnu ar y ddogfen hon heb ganiatâd ysgrifenedig clir ymlaen llaw gan ABPmer. Nid yw ABPmer yn derbyn atebolrwydd i unrhyw berson heblaw'r cleient. Os bydd y cleient yn datgelu'r ddogfen hon i drydydd parti, bydd yn eu gwneud yn ymwybodol na fydd ABPmer yn atebol iddynt mewn perthynas â'r ddogfen hon. Bydd y cleient yn indennio ABPmer os bydd ABPmer yn dioddef unrhyw golled neu ddifrod o ganlyniad i fethiant y cleient i gydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Gall adrannau o'r ddogfen hon ddibynnu ar wybodaeth a gyflenwir gan ffynonellau trydydd parti neu a dynnwyd ganddynt. Oni nodir yn wahanol yn y ddogfen hon, nid yw ABPmer wedi gwirio na dilysu gwybodaeth o'r fath yn annibynnol. Nid yw ABPmer yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefir gan unrhyw berson, gan gynnwys y cleient, o ganlyniad i unrhyw gamgymeriad neu anghywirdeb mewn unrhyw wybodaeth trydydd parti neu am unrhyw gasgliadau a luniwyd gan ABPmer sy'n seiliedig ar wybodaeth o'r fath.

Dylid ystyried yr holl gynnwys yn y ddogfen hon yn amodol ac ni ddylid dibynnu arno hyd nes y cyhoeddir fersiwn derfynol wedi'i nodi 'a gyhoeddir at ddefnydd cleient'.

Pob delwedd ar glawr blaen hawlfraint ABPmer ac eithrio morfarch (A J Pearson).

ABPmer

Quayside Suite, Medina Chambers, Town Quay, Southampton, Hampshire SO14 2AQ T:
+44 (0) 2380 711844 W: <http://www.abpmer.co.uk/>

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Amcanion y Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG)	2
3	Gweinyddiaeth y Rhaglen	3
3.1	Gweinyddiaeth	3
3.2	Y Broses Gaffael	4
4	Canlyniadau'r Prosiect	5
4.1	Prosiectau'r FLAG	5
4.2	Cyfrannu at Amcanion y FLAG	7
5	Gwariant y FLAG	8
6	Adborth gan Rhanddeiliaid	9
7	Cyfeirnodau	10
8	Talfyriadau/Acronymau	10

Atodiadau

A	Gweinyddiaeth y Rhaglen	22
A.1	Cefndir	22
A.2	Gweledigaeth y FLAG	22
A.3	Strwythur a gweinyddiaeth y FLAG	22
B	Amcanion y FLAG a'r Broses Gaffael	26
B.1	Y broses ymgeisio	26
B.2	Meini prawf cymhwysra ar gyfer cyllid y FLAG	26
B.3	Gweithgareddau a chostau nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid FLAG	27
B.4	Cynllun Cyfathrebu FLAG Bae Abertawe	28
C	Canlyniadau Prosiectau a Ariannwyd gan y FLAG	29
D	Cyfraniadau Prosiectau at Amcanion y FLAG	31
E	Gwariant y FLAG	33
F	Ymgynghori â Rhanddeiliaid ynghylch Effeithiolrwydd a Pherthnasedd y FLAG	35
F.1	Crynodeb	36

Tablau

Tabl 1.	Themâu ac Amcanion Strategaeth Datblygu Lleol FLAG Bae Abertawe	2
Tabl 2.	Cyfansoddiad aelodau FLAG Bae Abertawe (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020) .	4
Tabl 3.	Statws prosiectau a ariannwyd gan y FLAG (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020) ...	6

Tabl 4.	Prosiectau gwyliau bwyd yn ardal FLAG Bae Abertawe, a ariannwyd drwy'r Cynllun <i>Menter A Busnes</i> (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020)	6
Tabl 5.	Amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol a gyflawnir gan y prosiectau a gwblhawyd neu a gymeradwywyd hyd at 31 Ionawr 2020	18
Tabl 6.	Gwariant ar brosiectau'r FLAG hyd at 31 Ionawr 2020, yn ôl gweithgaredd	19
Tabl A1.	Cyfansoddiad aelodau FLAG Bae Abertawe (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020)..	24
Tabl B1.	Themâu ac Amcanion Strategaeth Datblygu Lleol FLAG Bae Abertawe	26
Tabl C1.	Statws prosiectau a ariannwyd gan y FLAG (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020) ..	30
Tabl C2.	Prosiectau gwyliau bwyd yn ardal FLAG Bae Abertawe, a ariannwyd drwy'r Cynllun <i>Menter A Busnes</i> (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020)	30
Tabl D1.	Amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol a gyflawnir gan y prosiectau a gwblhawyd neu a gymeradwywyd hyd at 31 Ionawr 2020	31
Tabl E1.	Statws prosiectau a ariannwyd gan y FLAG (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020) ..	34
Tabl E2.	Gwariant prosiectau'r FLAG hyd at 31 Ionawr 2020 fesul math o weithgaredd	34

Ffigurau

Ffigur A1.	Nifer y mynychwyr yng nghyfarfodydd FLAG Bae Abertawe ers 2017	25
Ffigur E1.	Cyllideb y FLAG yn ôl math	33

1. Cyflwyniad

Cafodd Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG) Bae Abertawe ei sefydlu'n wreiddiol yn 2012 fel partneriaeth leol mewn ymateb i gyfleoedd a ddaeth yn sgil Blaenoriaeth 4 yr Undeb mewn perthynas â Chronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) rhwng 2007-2013. FLAG Bae Abertawe oedd un o'r pedwar FLAG cyntaf a sefydlwyd yng Nghymru¹, ac yn ystod cyfnod cyllido 2007-2013 roedd yn cwmpasu Ardaloedd Awdurdodau Lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr (FLAG Bae Abertawe, 2018).

Ar ôl goruchwyllo'n llwyddiannus y modd y gweithredwyd cyllid yr EFF rhwng 2007-2013 ym Mae Abertawe, mae FLAG Bae Abertawe wedi parhau i weinyddu ail gyfnod cyllido dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) rhwng 2014-2020.

Nod yr adroddiad hwn yw sefydlu'r sefyllfa sylfaenol, mewn perthynas â strwythur, prosesau caffael, gwariant prosiectau a chanlyniadau prosiectau FLAG Abertawe, ynghyd â'r cynnydd tuag at amcanion y FLAG, rhwng cychwyn cyfnod cyllido'r EMFF hyd at 31 Ionawr 2020. Bydd hyn yn bwydo i werthusiad terfynol y rhaglen yn 2021. Yn arbennig, mae'r gwerthusiad sylfaenol wedi ceisio pennu unrhyw gyfyngiadau yn y rhaglen a allai effeithio ar lwyddiant y FLAG i gyflawni ei amcanion; ac os caiff cyfyngiadau o'r fath eu pennu, bydd yn cyflwyno argymhellion o ran sut y gellir ymdrin â nhw o fewn y cyfnod cyllido sy'n weddill.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau a ganlyn:

- Adran 1: Cyflwyniad (yr adran hon)
- Adran 2: Amcanion y FLAG
- Adran 3: Gweinyddiaeth y Rhaglen
- Adran 4: Canlyniadau Prosiectau
- Adran 5: Gwariant y FLAG
- Adran 6: Materion Allweddol

¹ Dyma'r Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd eraill yng Nghymru: FLAG Gogledd Cymru, FLAG Bae Ceredigion a FLAG Sir Benfro

2. Amcanion y FLAG

Dyma weledigaeth y FLAG ar gyfer Bae Abertawe: *“Erbyn 2020, hoffem weld bod diwydiannau pysgota a’r rhai cysylltiedig yn llwyddiannus, yn gynaliadwy ac yn economaidd hyfyw, yn ymwybodol o’u treftadaeth ac mewn sefyllfa dda i ateb heriau’r presennol a’r dyfodol.”*

Er mwyn helpu i wireddu’r weledigaeth hon, cafodd Strategaeth Datblygu Lleol Pysgodfeydd Bae Abertawe ei diweddarau ar gyfer y cyfnod cyllido presennol (2014-2020), ac fe’i llywiwyd gan Astudiaeth Ymchwil i’r Diwydiant Pysgota a gynhaliwyd yn 2015 ac adborth a ddeilliodd o ymgynghoriad â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Medi 2016. Cafodd y materion allweddol eu troi’n themâu ac yn amcanion, ac fe’u dangosir yn Nhabl 1.

Tabl 1. Themâu ac Amcanion Strategaeth Datblygu Lleol FLAG Bae Abertawe

Themâu	Amcanion
Thema 1: Ychwanegu gwerth, creu swyddi, denu pobl ifanc a hyrwyddo arloesi yn holl gamau’r gadwyn gyflenwi sy’n berthnasol i gynhyrchion dyframaeth a physgodfeydd	Amcan 1: Gwella’r cysylltiadau â chynhyrchwyr bwyd lleol a chynhyrchwyr eraill
	Amcan 2: Sicrhau cysylltiadau gwell ag ysgolion a cholegau er mwyn annog pobl ifanc i helpu i ddatblygu’r sector
	Amcan 3: Cynorthwyo i gyflawni prosiectau seilwaith graddfa fach er mwyn annog twf cynaliadwy’r diwydiant
	Amcan 4: Creu cyfleoedd i rwydweithio, marchnata a hyrwyddo diwydiannau lleol, yn cynnwys cyfleoedd yn ymwneud â’r gadwyn gyflenwi
	Amcan 5: Darparu cymorth ar gyfer rhoi cynnig ar brosesau newydd neu ychwanegu gwerth at gynhyrchion er mwyn helpu cwmnïau bach yn y diwydiant pysgota i dyfu
Thema 2: Cynorthwyo arallgyfeirio oddi mewn neu oddi allan i bysgodfeydd masnachol, dysgu gydol oes a chreu swyddi yn y meysydd pysgodfeydd a dyframaeth	Amcan 6: Cymorth i fusnesau o ran pennu cyfleoedd i arallgyfeirio ac ailsgilio oddi mewn neu oddi allan i’r sector
	Amcan 7: Darparu cyfleoedd i ddatblygu’r sector twristiaeth sy’n gysylltiedig â physgodfeydd lleol, yn cynnwys pysgod-dwristiaeth, ecodwristiaeth a chyfleusterau i dwristiaid
Thema 3: Gwella a manteisio ar asedau amgylcheddol y meysydd pysgodfeydd a dyframaeth, yn cynnwys gwaith i liniaru newid hinsawdd	Amcan 8: Pennu a datblygu ffynonellau incwm amgen ar gyfer y diwydiant pysgota, megis ynni adnewyddadwy
	Amcan 9: Gwneud y gorau o’r amgylchedd naturiol lleol
	Amcan 10: Datblygu agweddau treftadaeth a thwristiaeth yr arfordir mewn modd cynaliadwy a chytbwys
Thema 4: Hyrwyddo lles cymdeithasol a threftadaeth ddiwylliannol yn y meysydd pysgodfeydd a dyframaeth, yn cynnwys treftadaeth ddiwylliannol forol, dyframaeth a physgodfeydd	Amcan 11: Cymorth ar gyfer hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol, dyframaeth a buddiannau morol

Thema 5: Datblygiad lleol a dulliau llywodraethu gweithgareddau morol ac adnoddau pysgodfeydd lleol

Amcan 12: Ymgysylltu ymhellach â chymunedau a chynrychiolwyr lleol i ategu a hyrwyddo'r diwydiant lleol

Ffynhonnell: Strategaeth Datblygu Lleol FLAG Bae Abertawe (FLAG Bae Abertawe, 2018)

3. Gweinyddiaeth y Rhaglen

3.1 Gweinyddiaeth

Caiff FLAG Bae Abertawe ei weinyddu gan Gyngor Abertawe, ei Gorff Arweiniol, a'i lywio gan aelodau'r FLAG sy'n cynnwys cynrychiolwyr o fuddiannau economaidd-gymdeithasol lleol cyhoeddus, preifat a chymunedol.

3.1.1 Y Corff Arweiniol

Fel y Corff Arweiniol, Cyngor Abertawe sy'n mynd i'r afael â rheoli'r rhaglen a'r prosiectau, y swyddogaethau ariannol a gweinyddol, y broses o gynnal gwerthusiadau technegol ar geisiadau am grantiau a'r broses o gyflwyno hawliadau am gyllid i Lywodraeth Cymru (FLAG Bae Abertawe, 2018). Mae tri aelod o staff yn mynd i'r afael â gweinyddu'r FLAG:

1. Ysgogwr (1 cyfwerth ag amser llawn (FTE)): annog a hwyluso unigolion a grwpiau yn ardal y FLAG i gyflwyno ceisiadau prosiectau sy'n cyfrannu at strategaeth y FLAG, gan gynorthwyo a monitro ymgeiswyr trwy'r broses o ddatblygu'r syniad hyd at ei weithredu a'i gyflawni. Mae'r ysgogwr yn gyfrifol am reoli'r gyllideb, a bydd yn cyflwyno diweddariadau chwarterol i'r Tîm Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol a'r adran Gynllunio ac Adfywio, yn ogystal â rhoi diweddariadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru.
2. Swyddog cyllid (0.25 FTE): ymdrin ag ymholiadau'n ymwneud â'r gyllideb, datganiadau, unrhyw hawliadau, cysylltu â Llywodraeth Cymru i ddiweddarau ei systemau, ac ymdrin â chanllawiau, rheolau a chostau rhedeg o ddydd i ddydd.
3. Cynorthwydd (0.25 FTE): cynorthwyo gyda gwaith caffael, archebu nwyddau, trefnu cyfarfodydd, cymryd cofnodion, cysylltu ag ymgeiswyr a gwaith gweinyddu cyffredinol.

3.1.2 Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gynnal gwiriad terfynol ar gymhwysra cynigion prosiectau a ddewisir gan y FLAG, cyn y rhoddir cymeradwyaeth ffurfiol. Mae hyn yn golygu gwirio bod y cynnig yn bodloni meini prawf cymhwysra o fewn rheoliadau a chanllawiau'r EMFF, bod y costau'n cael eu cyfrifo'n gywir a bod y prosesau caffael wedi'u cynnal yn briodol. Os bydd y cynnig a'r prosesau caffael yn cydymffurfio, anfonir cadarnhad o'r cynnig cyllido.

Mae modd i'r FLAG gael hyd at uchafswm o 10% o uchafswm cyllideb yr EMFF (£380,000) i dalu costau rhedeg a hyd at 15% ar gyfer gweithgareddau ysgogi (FLAG Bae Abertawe, 2018). Caiff dyraniad y gyllideb ar gyfer gweinyddu FLAG Bae Abertawe yn ystod cyfnod cyllido'r EMFF (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020) ei ddisgrifio ymhellach yn Atodiad E. Mae gwybodaeth a ddeilliodd o ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn nodi y bydd cyllideb FLAG Bae Abertawe yn cael ei hailbroffilio yn 2020 oherwydd newidiadau yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid

oedd y newidiadau hyn wedi digwydd ar yr adeg yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, a bydd unrhyw newidiadau yn y gyllideb mewn perthynas â gweinyddu FLAG Bae Abertawe yn cael eu disgrifio yn yr adroddiad gwerthuso terfynol (2021).

Oddi mewn i Lywodraeth Cymru ceir tîm o dri sy'n gysylltiedig â phroses ymgeisio'r EMFF, yn cynnwys cymeradwyo, arfarnu a rheolaeth ariannol prosiectau'r FLAG. Y prif bwynt cyswllt ar gyfer Corff Arweiniol y FLAG yw'r Rheolwr Gweithredu, ar gyfer trafod ceisiadau, cymhwystra (prosiectau posibl y gellir eu hariannu) ac unrhyw ymholiadau. Caiff adolygiadau eu cynnal ar brosiectau ar ôl i'r prosiectau gael eu cyflawni, neu os cânt eu dewis ar gyfer archwiliad. Caiff hawliadau cyllid y FLAG eu prosesu gan staff mewn tîm gwahanol.

3.1.3 Aelodau'r FLAG

Fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020, roedd aelodau FLAG Bae Abertawe yn cynnwys 11 aelod o'r sector preifat a 5 aelod o'r sector cyhoeddus (gweler Tabl 2). Mae Strategaeth Datblygu Lleol FLAG Bae Abertawe yn nodi y dylai'r FLAG gyfarfod bob chwarter o leiaf. Rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Ionawr 2020, cafodd deg o gyfarfodydd y FLAG eu cynnal. Gwelir bod nifer yr aelodau a fynychodd wedi amrywio o 4 i 13, a mynychwyd pob un o'r cyfarfodydd gan o leiaf un cynrychiolydd o'r sector cyhoeddus ac un cynrychiolydd o'r sector preifat.

Tabl 2. Cyfansoddiad aelodau FLAG Bae Abertawe (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020)

Math o fudd	Sector
Preifat	Unigolyn (Biologydd Morol)
	Pysgotwr Masnachol (Porth Tywyn)
	Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Iechyd Porthladd Abertawe
	Gwirfoddolwr
	Cynrychiolydd Cymunedau Pysgota De a Gorllewin Cymru
	Twristiaeth Bae Abertawe
	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Ymddiriedolaeth Datblygu'r Mwmbwls
	Busnes Cynhyrchu Dyframaeth Lleol
	Busnes Cynhyrchu Dyframaeth Lleol
	Seafish
Cyhoeddus	Fforwm Amgylchedd Abertawe
	Datblygu Gwledig (REACH) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
	Datblygu Gwledig (REACH) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
	Biologydd Morol
	Cynghorydd Economaidd

Ffynhonnell: Darparwyd y data gan Gorff Arweiniol FLAG Bae Abertawe, 15 Ionawr 2020

3.2 Y Broses Gaffael

Mae'r broses gaffael ar gyfer cyllid yr EMFF trwy gyfrwng y FLAG yn cynnwys dau gam:

- i) Cyflwyno Ffurflen Syniad Prosiect; ac, os caiff y syniad hwn ei gymeradwyo gan y FLAG ii) Cyflwyno cais llawn.

Mae Nodiadau Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd mewn perthynas â'r EMFF (2014-2020) yn nodi yr ystyrir y gweithgaredd (prosiect) yn gymwys os dangosir yn glir y bydd yn cynorthwyo i gyflawni amcanion yr EMFF a nodau'r Strategaeth Datblygu Lleol (Tabl 1).

Ymhellach, mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd (Llywodraeth Cymru, 2018) yn pennu'r gweithgareddau a'r costau nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid FLAG. Fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020, roedd hyn yn cynnwys gwariant cyfalaf ar gyfer eitemau a chanddynt werth o fwy na £10,000 a/neu oes ddefnyddiol o dros flwyddyn. Mae'r cyfyngiad hwn yn wahaniaeth hollbwysig rhwng y cam cyllido presennol (EMFF; 2014-2020) a'r cam cyllido blaenorol (EFF; 2007-2014) pan oedd gwariant cyfalaf yn gymwys.

Er mwyn hyrwyddo cyfleoedd cyllido'r EMFF a thynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i unigolion a grwpiau ar gyfer cyflwyno prosiectau sy'n cyfrannu at Strategaeth Datblygu Lleol FLAG Bae Abertawe, mae FLAG Bae Abertawe wedi datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu. Mae'r dulliau ymgysylltu'n cynnwys ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol trwy dudalen Facebook a gwefan FLAG Bae Abertawe, cylchlythyrau, a datblygu llyfryn FLAG Bae Abertawe. Caiff digwyddiadau a ariennir gan y FLAG eu hyrwyddo ymhlith y cyhoedd a chymunedau lleol trwy amryfal sianeli, yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol, papurau newydd lleol, taflenni a phosteri.

4. Canlyniadau Prosiectau

4.1 Prosiectau'r FLAG

Mae Tabl 3 yn rhestru'r prosiectau sydd wedi cael cyllid gan FLAG Bae Abertawe neu sy'n disgwyl cael cymeradwyaeth (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020). Disgrifir y prosiectau'n fanwl yn Atodiad C. Mewn gwrthgyferbyniad â rhaglen gyllido wreiddiol yr EFF, ni all y FLAG ddyfarnu cyllid yr EMFF ar gyfer darparu gwyliau bwyd. Mae ymgeiswyr sy'n dymuno darparu gwyliau bwyd wedi cael eu cyfeirio at Menter a Busnes. Mae Tabl 4 yn rhestru'r prosiectau a gyflawnwyd yn ardal FLAG Bae Abertawe ac a ariannwyd trwy Menter a Busnes (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020).

Tabl 3. Statws prosiectau a ariannwyd trwy'r FLAG (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020)

Prosiect	Math o Weithgaredd	Cyllid FLAG (£)	Statws	Disgrifiad
Arddangosiadau coginio bwyd môr ym marchnad Abertawe	Gŵyl Bwyd Môr	7,055	Cwblhawyd	Arddangosiadau coginio bwyd môr a gynhaliwyd ym marchnad Abertawe ym mis Medi 219 dros gyfnod o bum diwrnod. Cafwyd cyllid ychwanegol o £1,796 gan Gronfa Gwyliau Bwyd Môr Menter a Busnes (Prosiect Datblygu a Thyfu Marchnadoedd Bwyd Môr; gweler Tabl 4).
Arolwg wystrys brodorol Bae Abertawe a Gŵyr	Dichonoldeb	4,999	Cwblhawyd	Arolwg o boblogaeth wystrys brodorol gwyllt ym Mae Abertawe ac ar hyd arfordir Gŵyr i weld beth yw statws presennol wystrys brodorol.
'Pysgod yw'r saig'	Digwyddiad	61,939	Cymeradwywyd cyllid – wrthi'n caffael ymgynghorydd bwyd i'w gyflawni	Bydd y prosiect 'Fish is the Dish 2020' yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fwyd môr lleol, materion yn ymwneud â chynaliadwyedd, a'r manteision iechyd sy'n deillio o fwyd môr, a hynny ymhlith myfyrwyr ysgolion cynradd 9-11 oed. Rhagwelir y bydd yn cychwyn yng Ngwanwyn 2020.
Astudiaeth Ddichonoldeb Tŷ Ocsiwn Porth Tywyn	Dichonoldeb	8,000	Disgwyl cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru	Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer sefydlu safle Ocsiwn Pysgod yn harbwr Porth Tywyn ac ar-lein.
Astudiaeth Ddichonoldeb Pontŵn ar Afon Tawe	Dichonoldeb	4,999	Disgwyl cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru	Astudiaeth gwmpasu / astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cael llwyfan glanio wrth Stadiwm Liberty.

Tabl 4. Prosiectau gwyliau bwyd yn ardal FLAG Bae Abertawe a ariannwyd trwy Menter a Busnes (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020)

Prosiect	Math o Weithgaredd	Cyllid FLAG (£)	Statws	Disgrifiad
Gŵyl wystrys y Mwmbwls	Gŵyl	993.40	Cwblhawyd	Gŵyl i ddathlu treftadaeth Wystrys y Mwmbwls a physgodfeydd y glannau yn y Mwmbwls, Gŵyr a Bae Abertawe. Cyflawnwyd ym mis Hydref 2019.
Arddangosiadau Coginio Bwyd Môr	Gŵyl	1,220.10	Cwblhawyd	Arddangosiadau coginio bwyd môr a gynhaliwyd ym Marchnad Abertawe, Medi 2019 (fel y nodir yn Nhabl 3). Gwariwyd y cyllid ychwanegol a gafwyd gan Menter a Busnes, sef £1,220.10, ar farchnata a deunyddiau hyrwyddo.

Ffynhonnell Tabl 3 a Thabl 4: Gwefan FLAG Bae Abertawe a data a gafwyd gan y Corff Arweiniol, Chwefror 2020.

4.2 Cyfrannu at Amcanion y FLAG

Caiff yr asesiad o'r amcanion y mae prosiectau'n cyfrannu atynt ei gynnal gan Gorff Arweiniol FLAG Bae Abertawe ar ôl derbyn ceisiadau prosiectau. Mae Tabl 5 yn nodi pa amcanion sy'n cael eu cyflawni gan brosiectau a gwblhawyd neu a gymeradwywyd, fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020.

Tabl 5. Amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol a gyflawnir gan y prosiectau a gwblhawyd neu a gymeradwywyd hyd at 31 Ionawr 2020

Prosiect	Thema 1					2		3			4		5
	Amcan 1		3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	
Asesu stoc/poblogaeth wystrys			●				●		●	●	●	●	
Arddangosiadau coginio bwyd môr ym marchnad Abertawe	●	●		●					●	●	●	●	
'Fish is the dish 2020'	○	○		○					○	○	○	○	

● = Cwblhawyd y prosiect, mae'n cyfrannu ar yr amcan hwn.
○ = Cymeradwywyd cyllid y prosiect ac mae wrthi'n cael ei gyflawni, bydd yn cyfrannu at yr amcan hwn.

Fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020, mae'r prosiectau sydd wedi'u cyflawni (neu eu cymeradwyo) yn cyfrannu at amcanion 1-4 (thema 1), 7 (thema 2), 9-10 (thema 3), 11 (thema 4) ac 12 (thema 5). Er y cyfrennir at bob un o themâu'r FLAG, nid oes unrhyw un o brosiectau'r FLAG hyd yn hyn wedi ymdrin ag amcan 5 (darparu cymorth ar gyfer rhoi cynnig ar brosesau newydd neu ychwanegu gwerth at gynhyrchion er mwyn helpu cwmnïau bach yn y diwydiant pysgota i dyfu), amcan 6 (cymorth i fusnesau o ran pennu cyfleoedd i arallgyfeirio ac ailsgilio oddi mewn neu oddi allan i'r sector) nac amcan 8 (pennu a datblygu ffynonellau incwm amgen ar gyfer y diwydiant pysgota, megis ynni adnewyddadwy). Mae'n bosibl bod cyfyngu ar wariant cyfalaf o fewn cynigion prosiectau wedi dylanwadu ar y diffyg prosiectau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at yr amcanion hyn.

5. Gwariant y FLAG

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer FLAG Bae Abertawe yw £380,000, a chaiff yr arian hwn ei rannu rhwng costau rhedeg y FLAG (£38,000), costau ysgogi (£57,000) a'r gost o roi prosiectau ar waith (£285,000 – o blith y swm hwn, mae £132,245 ar gael ar gyfer cyllido prosiectau).

O'r cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau (£132,245), mae 56% (£73,993) ohono wedi'i wario, neu wedi'i gymeradwyo ar gyfer ei wario, hyd at 31 Ionawr 2020. Dengys Tabl 6 y gwariant ar brosiectau'r FLAG hyd yn hyn, yn ôl gweithgaredd. Er bod amrywiaeth o weithgareddau wedi'u hariannu, mae cyfran fwyaf y gwariant wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ac addysg mewn perthynas â bwyd môr lleol.

Yn ychwanegol at y prosiectau a ddangosir yn Nhabl 6, mae cyllid ar gyfer dau brosiect arall (cyfanswm o £12,999) wedi'i gymeradwyo gan aelodau'r FLAG a disgwylir am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru; ac mae syniad ychwanegol am brosiect, sydd angen cyllideb o £39,990.80, wrthi'n cael ei ddatblygu.

Tabl 6. Gwariant ar brosiectau'r FLAG hyd at 31 Ionawr 2020, yn ôl gweithgaredd

Math o weithgaredd	Nifer y prosiectau	Cyfanswm y gwariant	% cyfanswm gwariant y FLAG ar brosiectau hyd at 31 Ionawr 2020
Astudiaeth ddichonoldeb	1	4999	7
Gŵyl bwyd môr	1	7055	9
Rhaglen addysgol	1	61,939	84
Cyfanswm	3	£73,993	100

Ffynhonnell: Darparwyd y data gan y Corff Arweiniol 2 Mawrth 2020

6. Adborth gan Randdeiliaid

Trwy ymgynghori â'r Corff Arweiniol, aelodau'r FLAG a rhanddeiliaid eraill, llwyddwyd i gael adborth ar y materion y daethpwyd ar eu traws wrth ddyrannu cyllid y FLAG ynghyd ag adborth ar effeithiolrwydd ymddangosiadol prosesau'r FLAG. Cyflwynodd cyfanswm o bedwar rhanddeiliad adborth ar gyfer y gwerthusiad sylfaenol hwn, yn ychwanegol at wybodaeth a gyflwynwyd gan y Corff Arweiniol a Llywodraeth Cymru.





Yn gyffredinol, pan gyflwynodd rhanddeiliaid adborth ar y broses ymgeisio, dywedwyd bod y broses yn gymhleth ac yn aneglur – rhywbeth a achoswyd, yn rhannol o leiaf, gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd mewn perthynas â chyllid yr EMFF. Y farn oedd bod y mater hwn wedi'i ddwysáu gan sawl newid yn y canllawiau.

Awgrymodd yr ymgynghoriad hefyd fod y cyfyngiad ar wariant cyfalaf wedi arwain rhai aelodau o'r gymuned bysgota leol i ddadymaelodi â'r FLAG a'i fod wedi cael effaith negyddol ar allu'r FLAG i bennu prosiectau perthnasol ar gyfer cyllid, ac effaith negyddol yn yr un modd ar wario cronfeydd a chyflawni canlyniadau'r FLAG. Wrth ymgynghori â Llywodraeth Cymru, nodwyd bod Cymru ymhell y tu ôl i Loegr, yr Alban ac Iwerddon o ran gweithgareddau a oedd wedi'u cymeradwyo, a nodwyd mai anghymhwysra prosiectau ag elfen gwariant cyfalaf yn perthyn iddynt oedd wrth wraidd hyn. Nodwyd bod y cyfyngiad ar wariant cyfalaf ym mhrosiectau'r EMFF a ariennir gan FLAG yng Nghymru wedi cael ei adolygu ac y byddai'n cael ei ddileu yn gynnar yn 2020. Er bod rhanddeiliaid o'r farn fod cael gwared â'r cyfyngiad yn ddatblygiad da, mynegodd un bryder y gallai fod yn rhy hwyr yn y rhaglen i fod o fudd i bysgodfeydd lleol a'r gymuned dyframaeth (o gofio bod yn rhaid cymeradwyo'r holl geisiadau erbyn mis Rhagfyr 2020). Bydd yr effaith ar brosiectau a ariennir gan y FLAG ac ar wariant y FLAG, a ddaw yn sgil cael gwared â'r cyfyngiad ar wariant cyfalaf, yn cael ei dogfennau yn y gwerthusiad terfynol yn 2021.

Er mwyn hwyluso'r gymuned bysgota i ymgysylltu â'r FLAG (neu unrhyw brosiect cyllido arall yn y dyfodol), awgrymodd un rhanddeiliad y byddai mwy o gyfathrebu a mwy o wybodaeth yn ddefnyddiol, naill ai trwy gael swyddogion cyllido i ymweld â cheiau/porthladdoedd bysgota i esbonio pa gyllid sydd ar gael a sut y gellir cael gafael arno, yn cynnwys gwybodaeth am y meini prawf y mae'n ofynnol eu bodloni; neu, trwy ddsbarthu gwybodaeth o'r fath trwy ddulliau cyfathrebu sy'n bodoli eisoes gan reoleiddwyr pysgodfeydd.

Yn olaf, dylid nodi bod sawl rhanddeiliad wedi cyflwyno adborth cadarnhaol ar y prosiect coginio bwyd môr a gynhaliwyd yn 2019, gan ddweud ei fod wedi codi ymwybyddiaeth o'r FLAG a bwyd môr lleol a thrwy hynny wedi cefnogi pysgodfeydd lleo

Atodiadau



Meddwl Arloesol - Atebion Cynaliadwy

A. Gweinyddiaeth y Rhaglen

A.1 Cefndir

Cafodd Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd (FLAG) Bae Abertawe ei sefydlu'n wreiddiol yn 2012 fel partneriaeth leol i ymateb i gyfleoedd a ddaeth yn sgil Blaenoriaeth 4 yr Undeb mewn perthynas â Chronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) rhwng 2007-2013. FLAG Bae Abertawe oedd un o'r pedwar FLAG a sefydlwyd yng Nghymru², ac yn ystod cyfnod cyllido 2007-2013 roedd yn cwmpasu Ardaloedd Awdurdodau Lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr (FLAG Bae Abertawe, 2018).

Ar ôl goruchwyllo'n llwyddiannus y modd y gweithredwyd cyllid yr EFF rhwng 2007-2013 ym Mae Abertawe, mae FLAG Bae Abertawe wedi parhau i weinyddu ail gyfnod cyllido dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) rhwng 2014-2020³. Diben y cyfnod ariannu presennol yw adeiladu ar gyflawniadau'r rhaglen EFF flaenorol a symud ymlaen â strategaeth mewn ardal ddaearyddol ehangach sydd bellach yn cynnwys ardal Porth Tywyn yn ogystal â'r tair ardal Awdurdod Lleol gwreiddiol y cyfeirir atynt uchod.

A.2 Gweledigaeth FLAG

Dyma weledigaeth y FLAG ar gyfer Bae Abertawe: *"Erbyn 2020, hoffem weld bod diwydiannau pysgota a'r rhai cysylltiedig yn llwyddiannus, yn gynaliadwy ac yn economaidd hyfyw, yn ymwybodol o'u treftadaeth ac mewn sefyllfa dda i ateb heriau'r presennol a'r dyfodol."* Er mwyn helpu i wireddu'r weledigaeth hon, cafodd Strategaeth Datblygu Lleol (LDS) Pysgodfeydd Bae Abertawe ei diweddarau ar gyfer y cyfnod cyllido presennol (2014-2020), ac fe'i llywiwyd gan Astudiaeth Ymchwil i'r Diwydiant Pysgota a gynhaliwyd yn 2015 ac adborth a ddeilliodd o ymgynghoriad â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Medi 2016. Cafodd y materion allweddol a nodwyd yn yr astudiaeth a'r ymgynghoriad eu troi'n themâu ac yn amcanion, sy'n alinio â'r amcanion amlinellir o fewn Blaenoriaeth 4 yr Undeb yn Rhaglen Weithredol yr EMFF. Mae manylion yr amcanion wedi'u nodi yn Atodiad B.

Cyfanswm y cyllid yr EMFF sydd ar gael i'w ddyrannu yng nghyfnod cyllido 2014-2020 yw £380,000. Cyhoeddwyd Strategaeth Datblygu Lleol (LDS) wedi'i diweddarau yn 2018 ac mae ceisiadau am gyllid sy'n ateb themâu ac amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol yn gymwys i dderbyn cyllid (gweler Tabl B1). Disgrifir y broses gaffael a'r prosiectau a ariannwyd fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020 yn fanylach yn Atodiad B a C yn y drefn honno.

A.3 Strwythur a gweinyddiaeth FLAG

Mae FLAG Bae Abertawe yn parhau i gael ei weinyddu gan Gyngor Abertawe fel y Corff Arweiniol, a'i lywio gan aelodau'r FLAG sy'n cynnwys cynrychiolwyr o fuddiannau economaidd-gymdeithasol lleol cyhoeddus, preifat a chymunedol.

² Dyma'r Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd eraill yng Nghymru: FLAG Gogledd Cymru, FLAG Bae Ceredigion a FLAG Sir Benfro

³ Mae angen dyrannu cyllid EMFF erbyn mis Rhagfyr 2020, fodd bynnag, gall y gwaith o weithredu'r prosiect fynd rhagddo tan 2021 ac o bosibl y tu hwnt i hynny yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth Cymru (Corff Arweiniol y FLAG, cyfathrebiad personol, mis Ionawr 2020)

A.3.1 Y Corff Arweiniol: Cyngor Abertawe

Cyngor Abertawe yw'r Corff Arweiniol ar gyfer FLAG Bae Abertawe, gan ymgymryd â rheoli'r rhaglen a'r prosiectau, y swyddogaethau ariannol a gweinyddol, y broses o gynnal gwerthusiadau technegol ar geisiadau am grantiau a'r broses o gyflwyno hawliadau am gyllid i Lywodraeth Cymru (FLAG Bae Abertawe, 2018). Mae tri aelod o staff, wedi'u lleoli o fewn Cyngor Abertawe, yn mynd i'r afael â gweinyddu'r FLAG, gan ymgymryd â'r rolau canlynol:

1. Ysgogwr (1 cyfwerth ag amser llawn (FTE)): un o brif werthoedd Datblygu Lleol dan Arweiniad Cymunedol (CLLD) yw gallu'r FLAGS i fynd allan i'r gymuned ac annog a hwyluso unigolion a grwpiau i gyflwyno prosiectau sy'n cyfrannu at y strategaeth (gweler Adran B.1.4). Mae'r Ysgogwr yn hwyluso ac yn adeiladu capasiti o fewn ardal y FLAG fel y gellir cymryd syniadau a'u datblygu fel prosiectau y gellir eu cyflawni, gan drefnu cyfarfodydd i ddod â phobl ynghyd, a lle bo angen, darparu cymorth technegol arbenigol neu wasanaeth ymgynghori. Mae'r ysgogwr yn gyfrifol am reoli'r gyllideb, a chynorthwyo a monitro ymgeiswyr trwy'r broses o ddatblygu'r syniad hyd at ei weithredu a'i gyflawni. Yn ogystal, mae'r Ysgogwr yn gyfrifol am gyflwyno diweddariadau chwarterol gan y FLAG i'r Tîm Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol a'r adran Gynllunio ac Adfywio, ynghyd â rhoi diweddariadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru.
 - Swyddog cyllid (0.25 FTE): Cyllid, ymdrin ag ymholiadau'n ymwneud â'r gyllideb, datganiadau, unrhyw hawliadau, cysylltu â Llywodraeth Cymru i ddiweddarau ei systemau, ac ymdrin â chostau rhedeg, rheolau a chanllawiau o ddydd i ddydd.
 - Cynorthwydd (0.25 FTE): Cynorthwyo gyda gwaith caffael, archebu nwyddau, trefnu cyfarfodydd, cymryd cofnodion, cysylltu ag ymgeiswyr a gwaith gweinyddu cyffredinol.

Mae modd i'r FLAG gael hyd at uchafswm o 10% o uchafswm cyllideb yr EMFF (£380,000) i dalu costau gweinyddu'r FLAG (costau rhedeg) a hyd at 15% ar gyfer gweithgareddau ysgogi (FLAG Bae Abertawe, 2018). Caiff dyraniad y gyllideb ar gyfer gweinyddu FLAG Bae Abertawe yn ystod cyfnod cyllido'r EMFF (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020) ei ddisgrifio ymhellach yn Atodiad E. Mae gwybodaeth a ddeilliodd o ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn nodi y bydd cyllideb y prosiect yn cael ei hailbroffilio yn 2020 oherwydd newidiadau yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd y newidiadau hyn wedi digwydd ar yr adeg yr ysgrifennwyd y gwerthusiad sylfaenol hwn, a bydd unrhyw newidiadau yn y gyllideb mewn perthynas â gweinyddu FLAG Bae Abertawe yn cael eu disgrifio yn yr adroddiad gwerthuso terfynol (2021).

A.3.2 Llywodraeth Cymru

Oddi mewn i Lywodraeth Cymru ceir tîm o dri sy'n gysylltiedig â phroses ymgeisio'r EMFF, yn cynnwys cymeradwyo, arfarnu a rheolaeth ariannol prosiectau'r FLAG. Y prif bwynt cyswllt ar gyfer Corff Arweiniol y FLAG yw'r Rheolwr Gweithredu, ar gyfer trafod ceisiadau, cymhwysra (prosiectau posibl y gellir eu hariannu) ac unrhyw ymholiadau. Caiff adolygiadau eu cynnal ar brosiectau ar ôl i'r prosiectau gael eu cyflawni, neu os cânt eu dewis ar gyfer archwiliad. Caiff hawliadau cyllid y FLAG eu prosesu gan staff mewn tîm gwahanol.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gynnal gwiriad terfynol ar gymhwysra cynigion prosiectau a ddewisir gan y FLAG, cyn y rhoddir cymeradwyaeth ffurfiol. Mae hyn yn golygu gwirio bod y cynnig yn bodloni meini prawf cymhwysra o fewn rheoliadau a chanllawiau'r EMFF, bod y costau'n cael eu cyfrifo'n gywir a bod y prosesau caffael wedi'u cynnal yn briodol. Os bydd y cynnig a'r prosesau caffael yn cydymffurfio, anfonir cadarnhad o'r cynnig cyllido.

Roedd ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn y broses o wneud newidiadau i'r meini prawf cymhwysra o ran y cyfyngiad ar gyllido prosiectau ag elfen gyfalaf (gweler adran B.3). O ran effeithiolrwydd dyraniad cyllid FLAG Bae Abertawe, bydd y newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith a'r effaith ar godi'r cyfyngiad ar gyllid cyfalaf yn cael eu hasesu yn yr adroddiad gwerthuso terfynol yn 2021. Nodwyd y bydd angen gwerthusiad ar gyfer unrhyw brosiectau sydd â chydran elfen gyfalaf sy'n derbyn cymeradwyaeth yn y dyfodol a ariennir gan y FLAG, i sicrhau bod y cyfarpar/eitem wedi'i brynu.

Cadarnhaodd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn nad oes unrhyw ofynion adrodd ffurfiol rhwng y FLAG a Llywodraeth Cymru.

A.3.3 Aelodau'r FLAG

Ar gyfer cyfnod cyllido presennol 2014-2020 yr EMFF, adolygwyd aelodaeth y FLAG (o gymharu â'r aelodaeth yn ystod y cyfnod 2007-2013) drwy broses ymgeisio wedi'i llywio gan FLAG 'cysgodol' a ffurfiwyd ar ddiwedd rhaglen 2007-2013 yr EFF (FLAG Bae Abertawe, 2018). Nododd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn, er bod llawer o aelodau'r FLAG o'r cyfnod cyllido cyntaf (2007-2013) wedi gwneud cais i fod yn aelodau yn y cyfnod cyllido presennol, mae aelodau newydd wedi ymuno hefyd, gan gynnwys cynrychiolwyr newydd o'r sector dyframaeth. Mae pum aelod wedi gadael y FLAG ers 2017, gan gynnwys tri chynrychiolydd o'r diwydiant pysgota masnachol lleol a dynnodd eu haelodaeth o'r FLAG yn ôl oherwydd y cyfyngiad ar ariannu prosiectau sy'n cynnwys pryniannau cyfalaf (disgrifir y cyfyngiad hwn ymhellach yn Adran B.3). Awgrymwyd bod bylchau yn yr aelodaeth bresennol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r pysgodfeydd cocos a'r diwydiant bara lawr lleol.

Mae Cylch Gorchwyl (TOR) y FLAG yn nodi'r gofynion i sicrhau cydymffurfedd â rheoliad EC 1303/2013 Erthygl 32 2(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu lleol dan arweiniad cymunedol (CLLD) gael ei arwain gan grwpiau gweithredu lleol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o fuddiannau economaidd-gymdeithasol lleol cyhoeddus a phreifat. Mae'r TOR yn nodi:

- Y dylai cyfansoddiad aelodaeth y Grŵp sicrhau na ddylai unrhyw fuddiant unigol fod â mwy na 49% o'r hawliau pleidleisio a'i bod yn wirioneddol gynrychiadol o fuddiannau economaidd-gymdeithasol lleol cyhoeddus a phreifat; a
- Sicrhau bod o leiaf 50% o'r pleidleisiau yn y penderfyniad dethol yn cael eu bwrw gan bartneriaid nad ydynt yn awdurdodau cyhoeddus.

Mae Tabl A1 yn dangos cyfansoddiad aelodaeth FLAG Bae Abertawe, fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020, sy'n cynnwys 11 aelod o'r sector preifat a 5 aelod o'r sector cyhoeddus.

Tabl A1. Cyfansoddiad aelodau FLAG Bae Abertawe (ar 31 Ionawr 2020)


Math o fuddiant	Sector
Preifat	Unigolyn (Biolegydd Morol)
	Pysgotwr Masnachol (Porth Tywyn)
	Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Iechyd Porthladd Abertawe
	Gwirfoddolwr
	Cymunedau Pysgota De a Gorllewin Cymru
	Twristiaeth Bae Abertawe

	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Ymddiriedolaeth Datblygu'r Mwmbwls
	Busnes Cynhyrchu Dyframaethu Lleol
	Busnes Cynhyrchu Dyframaethu Lleol
	Pysgod môr
Cyhoeddus	Fforwm yr Amgylchedd Abertawe
	CBS Pen-y-bont ar Ogwr Datblygu Gwledig (REACH)
	CBS Pen-y-bont ar Ogwr Datblygu Gwledig (REACH)
	Biolegydd morol
	Cynghorydd Economaidd

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan Gorff Arweiniol FLAG Bae Abertawe, 15 Ionawr 2020

A.3.4 Cyfarfodydd y FLAG

Mae Strategaeth Datblygu Lleol (LDS) FLAG Bae Abertawe yn nodi y dylai'r FLAG gyfarfod bob chwarter o leiaf. Rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Ionawr 2020, cafodd deg o gyfarfodydd y FLAG eu cynnal. Mae ffigur A1 yn dangos y nifer a oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y FLAG yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae nifer yr aelodau a fynychodd wedi amrywio o 4 i 13, a mynychwyd pob un o'r cyfarfodydd gan o leiaf un cynrychiolydd o'r sector cyhoeddus ac un cynrychiolydd o'r sector preifat.



Ffigur A1. Nifer y mynychwyr yng nghyfarfodydd FLAG Bae Abertawe ers 2017

B. Amcanion y FLAG a'r Broses Gaffael

B.1 Y broses ymgeisio

Mae'r broses ymgeisio am gyllid yr EMFF trwy gyfrwng y FLAG yn cynnwys dau gam:

- i) Cyflwyno Ffurflen Syniad Prosiect (PIF); ac os caiff y syniad hwn ei gymeradwyo gan y FLAG
- ii) Cyflwyno cais llawn.

Mae'r ffurflenni cais ar gael ar wefan FLAG Bae Abertawe

(<https://www.swansea.gov.uk/article/47434/Applying-for-SBFLAG-funding>).

B.2 Meini prawf cymhwysra ar gyfer cyllid y FLAG

Mae Nodiadau Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018) yn nodi yr ystyrir y gweithgaredd (prosiect) yn gymwys os gellir dangos yn glir y bydd yn cynorthwyo i gyflawni amcanion yr EMFF a nodau'r Strategaeth Datblygu Lleol. Disgrifir nodau'r EMFF a'r Strategaeth Datblygu Lleol isod.

B.2.1 Amcanion yr EMFF

Mae blaenoriaeth yr Undeb 4 yr EMFF yn ffrwd gyllido sydd â'r nod o gynyddu cyflogaeth a chydlyniant tiriogaethol. Amcan penodol blaenoriaeth 4 yr Undeb yw hybu twf economaidd, cynhwysiant cymdeithasol a chreu swyddi, a darparu cymorth ar gyfer cyflogadwyedd a symudedd llafur mewn cymunedau arfordirol a mewndirol sy'n dibynnu ar bysgota a dyframaethu, gan gynnwys arallgyfeirio gweithgareddau o fewn pysgodfeydd ac i sectorau eraill yr economi forwrol (Rhaglen Weithredol EMFF).

Mae Rhaglen Weithredol y DU yn nodi mai nod blaenoriaeth 4 yr Undeb yw: cefnogi buddsoddiad mewn hyfforddiant, cynnal a datblygu sgiliau, adeiladu capasiti, gwella marchnata lleol a logisteg y gadwyn gyflenwi, arallgyfeirio a mynediad gwell at arian cyfatebol.

B.2.2 Amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol

Dangosir themâu ac amcanion Strategaeth Datblygu Lleol FLAG Bae Abertawe yn Nhabl B1 isod.

Tabl 1. Themâu ac Amcanion Strategaeth Datblygu Lleol FLAG Bae Abertawe

Themâu	Amcanion
Thema 1: Ychwanegu gwerth, creu swyddi, denu pobl ifanc a hyrwyddo arloesi yn holl gamau'r gadwyn gyflenwi sy'n berthnasol i gynhyrchion dyframaeth a physgodfeydd	Amcan 1: Gwella'r cysylltiadau â chynhyrchwyr bwyd lleol a chynhyrchwyr eraill
	Amcan 2: Sicrhau cysylltiadau gwell ag ysgolion a cholegau er mwyn annog pobl ifanc i helpu i ddatblygu'r sector
	Amcan 3: Cynorthwyo i gyflawni prosiectau seilwaith graddfa fach er mwyn annog twf cynaliadwy'r diwydiant

	Amcan 4: Creu cyfleoedd i rwydweithio, marchnata a hyrwyddo diwydiannau lleol, yn cynnwys cyfleoedd yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi
	Amcan 5: Darparu cymorth ar gyfer rhoi cynnig ar brosesau newydd neu ychwanegu gwerth at gynhyrchion er mwyn helpu cwmnïau bach yn y diwydiant pysgota i dyfu
Thema 2: Cynorthwyo arallgyfeirio oddi mewn neu oddi allan i bysgodfeydd masnachol, dysgu gydol oes a chreu swyddi yn y meysydd pysgodfeydd a dyframaeth	Amcan 6: Cymorth i fusnesau o ran pennu cyfleoedd i arallgyfeirio ac ailsgilio oddi mewn neu oddi allan i'r sector
	Amcan 7: Darparu cyfleoedd i ddatblygu'r sector twristiaeth sy'n gysylltiedig â physgodfeydd lleol, yn cynnwys pysgod-dwristiaeth, ecodwristiaeth a chyfleusterau i dwristiaid
Thema 3: Gwella a manteisio ar asedau amgylcheddol y meysydd pysgodfeydd a dyframaeth, yn cynnwys gwaith i liniaru newid hinsawdd	Amcan 8: Pennu a datblygu ffynonellau incwm amgen ar gyfer y diwydiant pysgota, megis ynni adnewyddadwy
	Amcan 9: Gwneud y gorau o'r amgylchedd naturiol lleol
	Amcan 10: Datblygu agweddau treftadaeth a thwristiaeth yr arfordir mewn modd cynaliadwy a chytbwys
Thema 4: Hyrwyddo llesiant cymdeithasol a threftadaeth ddiwylliannol yn y meysydd pysgodfeydd a dyframaeth, yn cynnwys treftadaeth ddiwylliannol forol, dyframaeth a physgodfeydd	Amcan 11: Cymorth ar gyfer hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol, dyframaeth a buddiannau morol
Thema 5: Datblygiad lleol a dulliau llywodraethu gweithgareddau morol ac adnoddau pysgodfeydd lleol	Amcan 12: Ymgysylltu ymhellach â chymunedau a chynrychiolwyr lleol i ategu a hyrwyddo'r diwydiant lleol

Ffynhonnell: Strategaeth Datblygu Lleol FLAG Bae Abertawe (FLAG Bae Abertawe, 2018)

Caiff cymhwysra syniadau prosiectau a cheisiadau llawn a gyflwynir i FLAG Bae Abertawe ei asesu yn gyntaf gan Gydgylltydd (ysgogwr) FLAG Bae Abertawe mewn perthynas â chyflawni Canllawiau FLAG Llywodraeth Cymru ac amcanion Strategaeth Datblygu Lleol FLAG Bae Abertawe. Os bernir bod y syniad neu'r cais yn bodloni themâu'r Strategaeth Datblygu Lleol, caiff ei ddsbarthu i aelodau'r FLAG i'w gymeradwyo. Yn dilyn cymeradwyaeth gan aelodau'r FLAG, anfonir y cais at Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo'n derfynol.

B.3 Gweithgareddau a chostau nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid FLAG

Mae Nodiadau Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd mewn perthynas â'r EMFF (Llywodraeth Cymru, 2018) yn pennu'r gweithgareddau a'r costau nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid FLAG.

Mae paragraffau 58 a 59 y canllawiau yn datgan:

(58) *"Mae unrhyw wariant ar weithgareddau anghymwys megis grantiau cyfalaf neu refeniw i fusnesau masnachol neu gymorth arall a fyddai'n gyfystyr â Chymorth Gwladwriaethol yn anghymwys ar gyfer Datblygu Lleol dan Arweiniad Cymunedol"; ac*

(59) *“Mae’r eitemau neu fathau o wariant canlynol yn anghymwys ar gyfer Datblygu Lleol dan Arweiniad Cymunedol:*

- *Gwariant cyfalaf, h.y. unrhyw eitem unigol â gwerth o fwy na £10,000 a/neu oes ddefnyddiol o dros flwyddyn.”*

Mae anghymhwysra gwariant cyfalaf (ar gyfer eitemau sydd â gwerth o fwy na £10,000 a/neu oes ddefnyddiol o dros flwyddyn) yn wahaniaeth allweddol rhwng y cyfnod cyllido presennol (EMFF; 2014-2020) a’r cyfnod cyllido blaenorol (EFF; 2007-2014) pan oedd gwariant cyfalaf yn gymwys. Mae’r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn wedi awgrymu bod y cyfyngiad ar wariant cyfalaf wedi arwain rhai aelodau o’r gymuned bysgota leol i ddadymaelodi â’r FLAG.

Cafodd effaith y cyfyngiad ar wariant cyfalaf ar holl FLAGs Cymru ei nodi yn adroddiad cynnydd mewnol FLAG Bae Abertawe (Tachwedd 2019; a ddarparwyd gan y Corff Arweiniol) ar Dracio Risgiau a Phroblemau, a nododd, o ran gwariant cyfalaf, *“Mae FLAGs Cymru wedi profi anhawster o ran nodi prosiectau sydd heb unrhyw angen am elfen gyfalaf, sydd wedi arwain at lai o brosiectau a llai o ddiddordeb mewn ceisiadau am gyllid.”*

Wrth ymgynghori â Llywodraeth Cymru, nodwyd bod Cymru ymhell y tu ôl i Loegr, yr Alban ac Iwerddon o ran gweithgareddau a oedd wedi’u cymeradwyo gan FLAG, a nodwyd mai anghymhwysra prosiectau ag elfen gwariant cyfalaf yn perthyn iddynt oedd wrth wraidd hyn. Nodwyd bod y cyfyngiad ar wariant cyfalaf ym mhrosiectau’r EMFF a ariennir gan FLAGs yng Nghymru wedi cael ei adolygu ac y byddai’n cael ei ddileu yn gynnar yn 2020.

Mae’r cyfyngiad ar wariant cyfalaf wedi cael effaith negyddol ar allu’r FLAG i bennu prosiectau perthnasol ar gyfer cyllid, ac effaith negyddol yn yr un modd ar wario cronfeydd ac ar gyflawni canlyniadau’r FLAG. Bydd yr effaith ar brosiectau a ariennir gan y FLAG ac ar wariant y FLAG, a ddaw yn sgil cael gwared ar y cyfyngiad ar wariant cyfalaf, yn cael ei dogfennu yn y gwerthusiad terfynol yn 2021.

B.4 Cynllun Cyfathrebu FLAG Bae Abertawe

Datblygwyd a gweithredwyd cynllun cyfathrebu FLAG Bae Abertawe i hyrwyddo cyfleoedd cyllido’r EMFF sydd ar gael trwy’r FLAG a thynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i unigolion a grwpiau at gyfer cyflwyno prosiectau sy’n cyfrannu at Strategaeth Datblygu Lleol FLAG Bae Abertawe. Mae’r dulliau ymgysylltu wedi cynnwys ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol trwy wefan a thudalen Facebook FLAG Bae Abertawe a datblygu llyfryn FLAG Bae Abertawe, a luniwyd ar ffurf copi caled yn Gymraeg a Saesneg i aelodau’r FLAG ei ddosbarthu. Mae digwyddiadau a ariennir gan y FLAG (fel yr arddangosiadau coginio bwyd môr) yn cael eu hyrwyddo i’r cyhoedd a chymunedau lleol trwy sianeli lluosog gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, papurau newydd lleol, taflenni a phosteri.

C. Canlyniadau Prosiectau a Ariannwyd gan y FLAG

Mae Tabl 3 yn disgrifio’r prosiectau sydd wedi cael cyllid gan FLAG Bae Abertawe neu sy’n disgwyl cael cymeradwyaeth (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020). Mae syniadau prosiectau a oedd yn cael eu datblygu (ond heb eu cymeradwyo) ar 31 Ionawr 2020 heb eu cynnwys, ond byddant yn cael eu cynnwys yn y gwerthusiad terfynol os caiff ceisiadau llawn eu gwneud a’u cymeradwyo ar gyfer cyllid.

Dylid nodi, mewn gwrthgyferbyniad â rhaglen gyllido wreiddiol yr EFF, ni all y FLAG ddyfarnu cyllid yr EMFF ar gyfer darparu gwyliau bwyd. Mae ymgeiswyr sy'n dymuno darparu gwyliau bwyd wedi cael eu cyfeirio at gynllun *Menter a Busnes*⁴ (sef cwmni datblygu economaidd annibynnol sy'n atebol i Lywodraeth Cymru).

Mae Tabl C2 yn disgrifio'r prosiectau a gyflawnwyd yn ardal FLAG Bae Abertawe ac a ariannwyd trwy *Menter a Busnes* (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020).

⁴ <https://menterabusnes.cymru/amdanom-ni/>

Tabl C1. Statws prosiectau a ariannwyd trwy'r FLAG (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020)

Prosiect	Math o Weithgaredd	Cyllid FLAG (£)	Statws	Disgrifiad
Arddangosiadau coginio bwyd môr ym marchnad Abertawe	Gŵyl Bwyd Môr	7,055	Cwblhawyd	<p>Arddangosiadau coginio bwyd môr a gynhaliwyd ym marchnad Abertawe ym mis Medi 2019 dros gyfnod o bum diwrnod. Bu cogyddion lleol yn cynnal arddangosiadau coginio byw gan ddefnyddio bwyd môr lleol a brynwyd ym marchnad Abertawe, gan gynnwys cocos a bara lawr, gan alluogi'r gynulleidfa i weld a blasu'r bwyd a baratowyd. Dosbarthwyd cardiau ryseitiau er mwyn i bobl allu prynu'r cynhwysion o fewn y farchnad a rhoi cynnig ar y ryseitiau gartref. Roedd yr arddangosiadau coginio hefyd yn cynnwys busnesau lleol eraill yn gwerthu gwinoedd a chyffeithiau. Tynnwyd lluniau o'r digwyddiad ac fe'u cyhoeddwyd ar gyfryngau cymdeithasol a sianeli cyfryngau lleol. Roedd Bay TV yn bresennol, gan gyfwrdd â chydgyssylltydd y FLAG, cogyddion ac aelodau'r FLAG.</p> <p>Cafwyd cyllid ychwanegol o £1,796 gan Gronfa Gwyliau Bwyd Môr Menter a Busnes (Prosiect Datblygu a Thyfu Marchnadoedd Bwyd Môr) (gweler Tabl C2). Gwariwyd yr arian hwn ar farchnata a deunyddiau hyrwyddo.</p>
Arolwg wystrys brodorol Bae Abertawe a Gŵyr	Dichonoldeb	4,999	Cwblhawyd	<p>Arolwg o boblogaeth wystrys brodorol gwyllt ym Mae Abertawe ac ar hyd arfordir Gŵyr i weld beth yw statws presennol wystrys brodorol. Mae gwybodaeth o'r fath yn sail i reolaeth briodol ar y rhywogaeth fasnachol hon a fu'n bwysig ar un adeg, a gall y wybodaeth hon lywio'r potensial ar gyfer pysgodfeydd yn y dyfodol.</p>
'Pysgod yw'r Saig'	Digwyddiad	61,939	Cymeradwywyd cyllid – wrthi'n caffael ymgynghorydd bwyd i'w gyflawni	<p>Gan adeiladu ar ddigwyddiad blaenorol 'Fish is the Dish' a gynhaliwyd yn 2014, a oedd yn llawer llai ond yn llwyddiant, bydd prosiect 'Fish is the Dish 2020' yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o fwyd môr lleol, materion yn ymwneud â chynaliadwyedd, a'r manteision iechyd sy'n deillio o fwyd môr, a hynny ymhlith myfyrwyr ysgolion cynradd 9-11 oed. Rhagwelir y bydd y prosiect yn cynnwys o leiaf hanner y 191 o ysgolion cynradd yn ardal y FLAG a darperir pecyn addysg a gwersi coginio rhyngweithiol.</p> <p>Rhagwelir y bydd yn cychwyn yng Ngwanwyn 2020.</p>
Astudiaeth Ddichonoldeb Tŷ Ocsiwn Porth Tywyn	Dichonoldeb	8,000	Disgwyl cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru	<p>Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer sefydlu safle Ocsiwn Pysgod yn harbwr Porth Tywyn ac ar-lein.</p>
Astudiaeth Ddichonoldeb Pontŵn ar Afon Tawe	Dichonoldeb	4,999	Disgwyl cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru	<p>Astudiaeth gwmpasu / astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cael llwyfan glanio wrth Stadiwm Liberty.</p>

Ffynhonnell: Gwefan FLAG Bae Abertawe a data a gafwyd gan y Corff Arweiniol, Chwefror 2020.

Tabl C2. Prosiectau gwyliau bwyd yn ardal FLAG Bae Abertawe a ariannwyd trwy gynllun Menter a Busnes (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020)

Prosiect	Math o Weithgaredd	Cyllid FLAG (£)	Statws	Disgrifiad
Gŵyl wystrys y Mwmbwls	Gŵyl	£993.40	Cwblhawyd	Gŵyl i ddathlu treftadaeth Wystrys y Mwmbwls a physgodfeydd y glannau yn y Mwmbwls, Gŵyr a Bae Abertawe. Cyflawnwyd y digwyddiad ym mis Hydref 2019 yn y Mwmbwls ac roedd yn cynnwys bar wystrys, arddangosiadau coginio, marchnad cynnyrch lleol a gweithdai addysgol.
Arddangosiadau Coginio Bwyd Môr	Gŵyl	£1220.10	Cwblhawyd	Cafwyd cyllid ychwanegol o £1,220.10 gan Gronfa Gwyliau Bwyd Môr Menter a Busnes (Prosiect Datblygu a Thyfu Marchnadoedd Bwyd Môr). Gwariwyd yr arian hwn ar farchnata a deunyddiau hyrwyddo.

Ffynhonnell: Gwefan FLAG Bae Abertawe a data a gafwyd gan y Corff Arweiniol, Chwefror 2020

D. Cyfraniadau Prosiectau at Amcanion y FLAG

Mae Tabl D1 yn nodi pa amcanion sy'n cael eu cyflawni gan brosiectau'r FLAG a gwblhawyd neu a gymeradwywyd (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020).

Caiff yr asesiad o'r amcanion y mae prosiectau'n cyfrannu atynt ei gynnal gan Gorff Arweiniol FLAG Bae Abertawe ar ôl derbyn ceisiadau prosiectau. Os yw syniad neu gynnig prosiect yn bodloni o leiaf un amcan, cyflwynir y syniad neu'r cais i aelodau'r FLAG. Yn ystod y broses derfynol o gymeradwyo prosiect, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwirio bod y cynnig yn bodloni'r meini prawf cymhwysra yn y Strategaeth Datblygu Lleol.

Tabl D1. Amcanion LDS yn cael eu cyflawni gan y prosiectau a gwblhawyd/cymeradwywyd hyd at 31 Ionawr 2020

Prosiect	Amcan	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12
Asesiad o'r stoc/poblogaeth wystrys				●				●		●	●	●	●
Arddangosiadau coginio bwyd môr ym marchnad Abertawe		●	●							●	●	●	●
Pysgod yw'r ddysgl 2020		○	○		○					○	○	○	○
● = Prosiect wedi'i gwblhau, yn cyfrannu at yr amcan hwn													
○ = Bydd cyllid prosiect a gymeradwyir ac a ddarperir yn cyfrannu at yr amcan hwn													

Yn ogystal â'r prosiectau a ariannwyd gan y FLAG sy'n cyfrannu at amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol, mae'r camau a gymerwyd gan ysgogwr FLAG yn cyfrannu ymhellach at amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol. Mae enghreifftiau o gamau gweithredu o'r fath yn cynnwys:

- Cwrdd â rhanddeiliaid i drafod syniadau prosiectau;
- Rhoi cyngor a chanllawiau ar lenwi ffurflenni cais y FLAG;
- Cynorthwyo ymgeiswyr i gofrestru a gwneud cais am eitemau am bris safonol;
- Eu cyfeirio ar ffynonellau eraill o gyllid pan maent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y ffynonellau cyllid hynny, e.e. cronfa graidd yr EMFF.

Y tu hwnt i hyn, mae'r ysgogwr yn darparu cymorth ehangach, er enghraifft, ar ffurf cymorth wrth wirio ac ysgrifennu'r cais am gyllid FLAG.

O 31 Ionawr 2020, mae nifer o brosiectau yn cyfrannu at (neu a fydd yn cyfrannu at) amcanion 9-12. Daw'r rhain o dan Themâu 3, 4 a 5 – gwella a manteisio ar asedau amgylcheddol y meysydd pysgodfeydd a dyframaeth; hyrwyddo llesiant cymdeithasol a threftadaeth ddiwylliannol yn y meysydd pysgodfeydd a dyframaeth; a datblygiad lleol a dulliau llywodraethu adnoddau pysgodfeydd lleol a gweithgareddau morol.

Mae o leiaf un prosiect yn cyfrannu at (neu a fydd yn cyfrannu at) amcanion 1-4 a 7. Daw'r rhain o dan themâu 1 a 2 - ychwanegu gwerth, creu swyddi, denu pobl ifanc a hyrwyddo arloesi; a chynorthwyo arallgyfeirio oddi mewn neu oddi allan i bysgodfeydd masnachol.


Felly, mae portffolio presennol prosiectau'r FLAG yn cyffwrdd â phob thema. Fodd bynnag, mae nifer o amcanion penodol nad ydynt wedi cael sylw hyd yn hyn gan unrhyw brosiectau'r FLAG, sef amcanion 5, 6 ac 8 – darparu cymorth ar gyfer rhoi cynnig ar brosesau newydd neu ychwanegu gwerth at gynhyrchion er mwyn helpu cwmnïau bach yn y diwydiant pysgota i dyfu; cymorth i fusnesau o ran pennu cyfleoedd i arallgyfeirio ac ailsgilio oddi mewn neu oddi allan i'r sector; a phennu ffynonellau incwm amgen ar gyfer y diwydiant pysgota. Mae'n bosibl bod y cyfyngiad ar wariant cyfalaf o fewn cynigion prosiectau wedi dylanwadu ar y diffyg prosiectau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at yr amcanion hyn. Fodd bynnag, dylid cadw'r amcanion hyn mewn cof wrth werthuso ceisiadau pellach am gyllid, er y cydnabyddir efallai na fydd yn bosibl i'r FLAG ariannu prosiectau yn erbyn yr holl amcanion os na cheir ceisiadau perthnasol a chymwys.

E. Gwariant y FLAG

Mae'r adran hon yn crynhoi gwariant FLAG Bae Abertawe ar adeg y gwerthusiad sylfaenol (fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Ionawr 2020). Gellir nodi, yn dilyn newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, y bydd y gyllideb yn cael ei hailddosbarthu yn gynnar yn 2020. Bydd y newidiadau i gostau rhedeg cyllideb y FLAG, costau ysgogi a chyllid prosiectau yn cael eu disgrifio yn adroddiad gwerthuso terfynol FLAG Bae Abertawe.

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer FLAG Bae Abertawe yw £380,000, a chaiff yr arian hwn ei rannu rhwng costau rhedeg y FLAG, costau ysgogi a'r gost o roi prosiectau ar waith, fel y dangosir yn ffigur E1.

O fewn y cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithredu prosiectau, mae £132,245 ar gael i'w ddyfarnu fel cyllid prosiectau. Mae'r gweddill yn cynnal costau staff a theithio sy'n gysylltiedig â gweithredu prosiectau.



Ffigur E1. Cyllideb FLAG yn ôl math

Mae Tabl E1 yn dangos gwariant y FLAG hyd at 31 Ionawr 2020 ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cwblhau, prosiectau sy'n cael eu datblygu (dyraniad cyllid wedi'i gymeradwyo), ceisiadau llawn prosiectau sy'n aros am gymeradwyaeth (cyllid heb ei ddyrannu) a syniadau prosiectau sy'n aros am gymeradwyaeth (cyllid heb ei ddyrannu).

Mae Tabl E2 yn dangos gwariant prosiectau'r FLAG hyd at 31 Ionawr 2020 yn ôl y math o weithgaredd. Mae'r tabl yn dangos bod ystod o weithgareddau wedi'u hariannu, gyda'r gyfran uchaf o wariant ar brosiectau (hyd at 31 Ionawr 2020) â ffocws ar addysg a chodi ymwybyddiaeth am fwyd môr lleol.

Fel y nodir yn Nhabl E1, mae dwy astudiaeth ddichonoldeb bellach yn aros am gymeradwyaeth derfynol ar gyfer cyllid FLAG gan Lywodraeth Cymru.

Tabl E1. Statws prosiectau a ariennir gan FLAG (ar 31 Ionawr 2020)

Dyddiad	Project Title	FLAG Funding (£)	Status
Fully approved projects			
03/10/2019	Astudiaeth dichonoldeb wystrys	4,999	Cyflawn
03/10/2019	Arddangosiadau coginio bwyd môr	7,055	Cyflawn
11/10/2019	Pysgod yw'r ddysgl	61,939	Cyllid wedi'i gymeradwyo – yn cael ei ddarparu
Sub-Total		73,993	
FLAG-approved projects awaiting WG approval			
18/12/2019	Dichonoldeb Tŷ Ociswn Porth Tywyn Astudio	8,000	Aros am gymeradwyaeth gan LIC
18/12/2019	Astudiaeth Dichonoldeb Pontŵn ar Afon Tawe	4,999	Awaiting approval from WG
Sub-Total		12,999	
Project funding applications in development			
13/01/2020	Prosiect 1*	39,990.80	PIF wedi'i gymeradwyo, cais llawn yn cael ei ddatblygu
Sub-Total		39,990.80	
<p>* Mae teitl y prosiect wedi'i hepgor gan fod y cais prosiect yn cael ei ddatblygu LIC = Llywodraeth Cymru; PIF = Ffurflen Syniad Prosiect Sylwch nad yw'r cyfanswmiau uchod yn cynnwys dau syniad prosiect ychwanegol a drafodwyd gyda'r FLAG ers 31ain Ionawr 2020. Os caiff y prosiectau hyn eu datblygu, bydd y prosiectau hyn yn cael eu disgrifio yn yr adroddiad gwerthuso terfynol yn 2021.</p>			

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan y Corff Arweiniol 4 Mawrth 2020

Tabl E2. Gwariant prosiect FLAG hyd at 31 Ionawr 2020 yn ôl math o weithgaredd

Math o weithgaredd	Nifer y prosiectau	Cyfanswm gwariant (£)	% o gyfanswm gwariant prosiect FLAG hyd at 31 Ionawr 2020
Astudiaeth dichonoldeb	1	4999	7
Gŵyl bwyd môr	1	7055	9
Rhaglen addysgiadol	1	61,939	84
Total	3	73,993	100

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan y Corff Arweiniol 2 Mawrth 2020

O'r cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau (£132,245), mae 56% (£73,993) ohono wedi'i wario, neu wedi'i gymeradwyo ar gyfer ei wario, hyd at 31 Ionawr 2020. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer dau brosiect pellach (cyfanswm o £12,999) wedi'i gymeradwyo gan aelodau'r FLAG ac yn aros am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, ac mae syniad prosiect ychwanegol, sy'n gofyn am gyllideb o £39,990.80, yn cael ei ddatblygu.

F. Ymgynghori â Rhanddeiliaid ynghylch Effeithiolrwydd a Pherthnasedd y FLAG

Cafwyd adborth ar effeithiolrwydd ymddangosiadol prosesau FLAG Bae Abertawe a pherthnasedd amcanion y FLAG wrth ymgynghori, drwy gyfweiliadau ffôn neu drwy e-bost, ag aelodau'r FLAG a rhanddeiliaid eraill. Cafwyd adborth gan rhanddeiliaid mewn perthynas â:

- Y broses ymgeisio, gan gynnwys cymorth a chanllawiau yn ystod y broses;
- Perthnasedd y meini prawf ariannu i bysgodfeydd lleol a'r gymuned dyframaeth;
- Pa mor effeithiol mae'r FLAG yn cyflawni ei rôl;
- Manteision y prosiectau a gyflawnwyd; ac
- Argymhellion am y broses ar gyfer gweddill y cyfnod cyllido neu ar gyfer rhaglenni cyllido yn y dyfodol

Cyflwynodd cyfanswm o bedwar rhanddeiliad adborth ar gyfer y gwerthusiad sylfaenol hwn, yn ychwanegol at wybodaeth a gyflwynwyd gan y Corff Arweiniol a Llywodraeth Cymru. Mae'r adborth hwn wedi'i grynhoi isod. Dylid nodi, oherwydd y nifer cymharol fach o brosiectau a ariannwyd ac a gyflawnwyd ar adeg ysgrifennu'r gwerthusiad sylfaenol hwn, dim ond adborth na ellir ei gysylltu ag unigolion sydd wedi'i gynnwys am resymau cyfrinachedd.

Y broses ymgeisio

- Mae'r broses ymgeisio yn gymhleth ac yn aneglur, ac mae canllawiau Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddryslyd ac yn anghyflawn o'r dechrau. Roedd sawl newid yn y canllawiau wedi dwysáu'r broblem hon.
- Roedd yn ymddangos bod yr ysgogwr wedi derbyn gwybodaeth a chanllawiau anghywir o'r dechrau.
- Mae Cymru ymhell y tu ôl i Loegr, yr Alban ac Iwerddon o ran gweithgareddau FLAG a gymeradwywyd, oherwydd bod yr elfen gwariant cyfalaf yn cyfyngu'r fawr ar gymhwystra.
- Roedd un cais na wnaed oherwydd y cyfyngiad ar wariant cyfalaf.

Perthnasedd y meini prawf cyllido i anghenion y sectorau pysgodfeydd a dyframaeth lleol

- Nid yw'r cyllid FLAG yn bodloni anghenion y sector pysgodfeydd a dyframaeth ar hyn o bryd.
- Mae'r gwariant hyd yma wedi'i gyfyngu i wariant refeniw sydd yn ddefnyddiol ond byddai'r gymuned bysgota yn elwa ar gael mwy o fuddsoddiad cyfalaf i wella diogelwch a lles.
- Mae gan ranbarthau FLAG eraill (Lloegr, yr Alban ac Iwerddon) lwfans cyfalaf sy'n eu galluogi i gefnogi ystod ehangach o brosiectau sy'n darparu amrywiaeth o gymorth.
- Nid yw'r Strategaeth Datblygu Lleol yn ddefnydd da o amser ac ymdrech weinyddol.
- Mae'r Strategaeth Datblygu Lleol yn cyfeirio at wyliau bwyd ond nid oedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu arian ar gyfer gwyliau.
- Nid yw cyllid FLAG yn darparu unrhyw fudd os na ellir cadw pryniannau cyfalaf am dros 12 mis.
- Roedd un cais na wnaed oherwydd y cyfyngiad ar gyllid cyfalaf.
- Y mecanwaith [cyllid yr UE] yn ei gyfanrwydd yw'r broblem. Nid yw'r arian wedi mynd i helpu mentrau cynhyrchiol.

Effeithiolrwydd y FLAG wrth gyflawni ei rôl

- Mae'r FLAG yn cwrdd yn rheolaidd ond nifer fach sy'n mynychu cyfarfodydd.
- Bu'n anodd ceisio annog y pysgotwyr i ymgysylltu oherwydd y cyfyngiadau ar brosiectau sy'n gymwys i dderbyn cyllid.
- Yn gyffredinol, cefnogir ceisiadau gan y FLAG ond mae'r mathau o brosiectau wedi bod yn gyfyngedig o ran eu hamrywiaeth.
- Nid yw'n cyflawni'r rôl yn effeithiol iawn. Caiff y rhan fwyaf o arian ei wario ar bethau gweinyddol.
- Mae'n anodd iawn cael arian sy'n ddefnyddiol i bysgotwyr.
- Nid yw'r gwaith yn cael ei yrru gan yr aelodau mewn gwirionedd gan fod y gymuned bysgota yn gymharol fach ac mae'n anodd ymgysylltu â physgotwyr masnachol.
- Nid yw'r arian yn cael ei wario mewn modd arbennig o ddefnyddiol, fel y rhan fwyaf o arian yr UE.

Buddion y prosiectau a gyflawnwyd

- Mae'r prosiectau a gyflawnwyd gan y FLAG wedi cael derbyniad da.
- Roedd yr arddangosiad coginio a gynhaliwyd ym Marchnad Abertawe wedi denu tyrfa fawr a helpodd i hybu diddordeb yng nghynllun ariannu FLAG ac ymwybyddiaeth ohono, yn ogystal â chefnogi busnesau bysgota yn y rhanbarth.
- Cafwyd derbyniad da i'r arddangosiadau bwyd môr yn y farchnad.

Argymhellion ar gyfer gweddill y cyfnod cyllido neu gyllido yn y dyfodol

- Mae'n bosibl bod y newid yn y cyfyngiad ar wariant cyfalaf wedi dod yn rhy hwyr.
- Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynglŷn â datblygu dull cydreoli [rheoleiddwyr a diwydiant] ar gyfer pysgodfeydd yn y dyfodol, mae'n werth edrych ar sut y gellid ailstrwythuro'r FLAG i fod â rôl. Er mwyn bod yn effeithiol, byddai angen adnoddau digonol ac arbenigedd ymhlith staff i reoli a datblygu pysgodfeydd yn fwy effeithiol.
- Mae angen cael cyfathrebu a gwybodaeth. Byddai'n ddefnyddiol pe bai swyddogion cyllido yn ymweld â phorthladdoedd i esbonio wrth bysgotwyr pa gyllid sydd ar gael, sut i gael gafael arno a beth yw'r meini prawf y mae'n ofynnol iddynt eu bodloni. Neu gellid dosbarthu gwybodaeth o'r fath ar y cyd â ffynonellau gwybodaeth eraill sydd eisoes yn cael eu dosbarthu i bysgotwyr gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft, yr amrywiad trwydded misol gan adran pysgodfeydd Llywodraeth Cymru.

F.1 Crynodeb

Yn gyffredinol, pan gyflwynodd rhanddeiliaid adborth ar y broses ymgeisio, dywedwyd bod y broses yn gymhleth ac yn aneglur – rhywbeth a achoswyd, yn rhannol o leiaf, gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyllid yr EMFF ar gyfer FLAGs. Y farn oedd bod y mater hwn wedi'i ddwysáu gan sawl newid yn y canllawiau.

O ran perthnasedd y meini prawf cyllido i anghenion y sectorau pysgodfeydd a dyframaethu lleol, mater allweddol a godwyd gan yr holl rhanddeiliaid a roddodd adborth oedd eithrio prosiectau a oedd angen gwariant cyfalaf. Y farn oedd bod cyllid yr EMFF ar gyfer FLAGs yng Nghymru (hyd yma) wedi'i gyfyngu gan y mater hwn, ac roedd hyn yn wahanol i FLAGs yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon, a oedd yn gallu ariannu ystod ehangach o brosiectau gan ddarparu amrywiaeth o gymorth. Ar ben hynny, mynegwyd y farn bod y cyfyngiad ar wariant cyfalaf wedi arwain at anawsterau o ran ymgysylltu'r cymunedau bysgota

Ileol â'r FLAG. Er bod codi'r cyfyngiad yn cael ei ystyried yn ddatblygiad da, mynegodd un rhanddeiliad y pryder y gallai fod yn rhy hwyr yn y rhaglen i fod o fudd i bysgodfeydd lleol a'r gymuned dyframaeth (o gofio bod yn rhaid cymeradwyo'r holl geisiadau erbyn mis Rhagfyr 2020). Er mwyn hwyluso'r gymuned bysgota i ymgysylltu â'r FLAG (neu unrhyw brosiect ariannu arall yn y dyfodol), awgrymodd un rhanddeiliad y byddai mwy o gyfathrebu a gwybodaeth yn ddefnyddiol, naill ai trwy gael swyddogion cyllido yn ymweld â phorthladdoedd/ceiau pysgota i esbonio pa gyllid sydd ar gael a sut y gellir cael gafael arno, yn cynnwys gwybodaeth am y meini prawf y mae'n ofynnol eu bodloni; neu trwy ddsbarthu gwybodaeth o'r fath trwy ddulliau cyfathrebu sy'n bodoli eisoes gan reoleiddwyr pysgodfeydd.

Yn olaf, dylid nodi bod sawl rhanddeiliad wedi cyflwyno adborth cadarnhaol ar y prosiect arddangosiadau coginio bwyd môr a gynhaliwyd yn 2019, gan ddweud ei fod wedi codi ymwybyddiaeth o'r FLAG a bwyd môr lleol a thrwy hynny wedi cefnogi pysgodfeydd lleol.

Contact Us

ABPmer

Quayside Suite,
Medina Chambers
Town Quay, Southampton
SO14 2AQ

T +44 (0) 23 8071 1840

F +44 (0) 23 8071 1841

E enquiries@abpmer.co.uk

www.abpmer.co.uk

